PROFFIL Y RÔL

Teitl y Rôl:	Swyddog Cadw yn y Ddalfa
Gradd:	Graddfa 3/4
Atebol i:	Rhingyll y Ddalfa
Yn gyfrifol am:	Dim Cyfrifoldeb Goruchwylio
Cydgysylltu â'r canlynol:	Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, y Cyhoedd, Sefydliadau Allanol, Asiantaethau a Phartneriaethau
Lefel Fetio Ofynnol:	RV/CTC - Fetio Recriwtio a Gwiriadau Gwrthderfysgaeth
Dyddiad Cyhoeddi:	Hydref 2022

Diben y Rôl	Helpu i sicrhau cadwraeth ddiogel, gofal a lles y sawl a gedwir yn y ddalfa a'u heiddo, yn unol â'r pwerau fel y'u manylir yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002, gan sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
Prif Gyfrifoldebau	**Derbyn y sawl a gedwir i'r ddalfa** Gwirio manylion y person a gedwir yn y ddalfa a nodi manylion unrhyw gyflyrau arbennig a allai nodi'r angen i ddefnyddio mesurau rheoli arbennig er mwyn sicrhau y caiff y person ei gadw yn y ddalfa yn ddiogel. Rhoi gwybod i'r bobl berthnasol ynglŷn â chadwraeth y person a gedwir yn y ddalfa a chadw cofnodion llawn o'ch gweithredoedd.
	Helpu gyda'r broses o gadw pobl yn y ddalfa Cynnal chwiliadau o unigolion a dderbynnir i'r ddalfa, pan fyddwch wedi eich awdurdodi i wneud hynny neu'n gallu gwneud hynny yn gyfreithiol. Cwblhau cofnodion y ddalfa, paratoi a gweini bwyd a diod i'r sawl a gedwir yn y ddalfa a chydgysylltu â'r bobl berthnasol ynglŷn â'r unigolion a gedwir yn y ddalfa. Helpu i gynnal archwiliadau o'r sawl a gedwir yn y ddalfa. Helpu i gaffael gwybodaeth o dan gyfarwyddyd Swyddog y Ddalfa i ddatblygu Cynllun Gofal y Sawl a Gedwir yn y Ddalfa, er mwyn ategu asesiad risg Swyddog y Ddalfa a chynnal camau gweithredu er mwyn ategu'r cynllun hwnnw a gofynion cyfreithiol 'Trin y person a gedwir yn y ddalfa'. Helpu i symud a thrin y person a gedwir yn y ddalfa o fewn yr amgylchedd hwnnw er mwyn sicrhau y caiff ei gadw yno'n ddiogel. Gall deiliad y swydd gludo'r sawl a gedwir yn y ddalfa o'r man lle y cânt eu harestio i Orsaf yr Heddlu a chludo'r rheini sy'n agored i niwed o Orsaf yr Heddlu i ardal eu cartref
	Yn ogystal, bydd yn rhaid i ddeiliaid y swydd fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol o'r fath a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt o anghenraid yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd.

Cymwysterau	**Hanfodol** • Safon dda o addysg i lefel TGAU A-C o leiaf, gan gynnwys Mathemateg a Saesneg, neu'r gallu i ddangos sgiliau a galluoedd cyfatebol. **Dymunol** • Rhaid meddu ar drwydded yrru ddilys gyfredol a llawn • Tystysgrif Cymorth Cyntaf ddilys a chyfredol
Sgiliau	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar sgiliau cyfrifiadurol a medrusrwydd mewn cymwysiadau Microsoft • Hyfforddiant mewn diogelwch bersenol ac gyhoeddus (Ddarperir hyfforddiant blwyddynol) • Tystysgrif cymorth cyntaf neu bodlon weithio I tystysgrif cymorth cyntaf ((Ddarperir hyfforddiant blwyddynol) **Dymunol** • Cymraeg Iaith Lefel 2 – Yn gallu deall hanfod sgwrs Gymraeg ac yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau ffôn. Yn gallu cyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg • Profiad o 'Niche'
Gwybodaeth	**Hanfodol** • Rhaid bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch • Rhaid bod yn ymwybodol o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. **Dymunol** • Dangos gwybodaeth am amgylchedd y ddalfa.
Rhinweddau Personol	**Gwasanaethu'r Cyhoedd** Dangos eich bod yn credu'n wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf iddynt Deall disgwyliadau, anghenion a phryderon newidiol cymunedau gwahanol a cheisio mynd i'r afael â hwy Meithrin hyder y cyhoedd drwy siarad â phobl mewn cymunedau lleol er

	mwyn ystyried eu safbwyntiau a chwalu'r rhwystrau rhyngddynt hwy a'r heddlu Deall effaith a buddiannau plismona i gymunedau gwahanol a nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iddynt Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd **Proffesiynoldeb** Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu Cymryd perchnogaeth wrth ddatrys problemau, dangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd a allai fod yn ymfflamychol Gweithredu ar eich menter eich hun i fynd i'r afael â materion, gan ddangos agwedd gref at waith a gwneud ymdrech ychwanegol pan fydd angen Cynnal safonau proffesiynol, gweithredu'n onest a moesegol a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol. Bod yn ddigyffro a phroffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro a bod yn barod i gamu ymlaen a chymryd rheolaeth pan fydd angen **Agored i Newid** Bod yn gadarnhaol ynghylch newid, gan ymateb mewn modd hyblyg ac addasu i ffyrdd gwahanol o weithio Dod o hyd i ffyrdd gwell, mwy cost effeithiol o wneud pethau, gan wneud awgrymiadau ar gyfer newid Cymryd dull arloesol a chreadigol o ddatrys problemau Gofyn am adborth a gweithredu arno, dysgu o brofiad a datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun **Darparu Gwasanaethau** Deall amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad a sut mae gwaith yn cyd-fynd â'r rhain Cynllunio a threfnu tasgau'n effeithiol, gan fabwysiadu dull strwythuredig a threfnus o gyflawni canlyniadau Rheoli tasgau lluosog yn effeithiol drwy ystyried pethau ymlaen llaw, gan flaenoriaethu a rheoli amser yn dda Canolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni, gweithio'n gyflym ac yn gywir a cheisio canllawiau pan fo'n briodol **Gwneud penderfyniadau** Casglu, dilysu ac asesu'r holl wybodaeth briodol sydd ar gael i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd Ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl cyn gwneud penderfyniadau clir ac amserol y gellir eu cyfiawnhau Adolygu penderfyniadau o ystyried gwybodaeth newydd ac amgylchiadau newidiol Cydbwyso risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau. Arfer disgresiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd **Cydweithio ag Eraill** Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr Yn hawdd mynd atoch, gan ddatblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol

	Gwrando'n ofalus a gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth, gan leisio eich barn eich hun yn gadarnhaol ac adeiladol Darbwyllo pobl drwy bwysleisio buddiannau dull penodol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a rheoli eu disgwyliadau Bod yn foesgar, yn gwrtais ac yn ystyriol, gan ddangos empathi a thosturi Ymdrin â phobl fel unigolion gan fynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol Trin pobl â pharch ac urddas, ymdrin â nhw yn deg a heb ragfarn gan weithredu mewn ffordd anfeirniadol ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau

Mae'n rhaid i bob unigolyn yn Heddlu De Cymru ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Mae'n rhaid iddynt ddangos y gallant gyfrannu at amgylchedd gwaith agored a theg lle na chaniateir ymddygiad amhriodol. Ni ddylent ddangos unrhyw dystiolaeth y byddant yn debygol o gyfrannu at unrhyw achos o fwlio yn y gweithle nac unrhyw fath arall o ymddygiad gwahaniaethol.

Dull Asesu

Wrth gwblhau eich cais sicrhewch eich bod ond yn cwblhau'r adrannau wedi'u marcio isod gan mai'r rhain yw'r adrannau y cewch eich marcio yn eu herbyn ar gyfer cam llunio rhestr fer eich cais.

Cymwysterau	Ie
Sgiliau	Ie
Gwybodaeth	
Rhinwedd Personol – Gwasanaethu'r Cyhoedd	Ie
Rhinwedd Personol – Proffesiynoldeb	Ie
Rhinwedd Personol – Agored i Newid	
Rhinwedd Personol – Darparu Gwasanaethau	
Rhinwedd Personol – Gwneud Penderfyniadau	
Rhinwedd Personol – Cydweithio ag Eraill	Ie